Advice and Money
Cyngor ac Arian

# Cwestiynau Cyffredin ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am gyllid rhan-amser 2024/25

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn dechrau ar gwrs rhan-amser yn 2024/25, yn amodol ar feini prawf argaeledd, byddwch chi'n gallu gwneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer eu pecyn ariannu. Os ydych chi'n byw yn Lloegr, gweler www.gov.uk/student-finance/parttime-studentsi gael gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| Pwy sy'n gallu gwneud cais? | Mae'n rhaid i'ch cyfeiriad cartref fod yng Nghymru ac ni ddylech fod wedi symud yma at ddibenion addysg. At hynny, mae'n rhaid i chi fod:<br>• Yn un o ddinasyddion y DU neu â statws preswylydd sefydlog (sy'n golygu nad oes cyfyngiadau ar ba mor hir y gallwch aros yn y DU)<br>• At hynny, mae'n rhaid eich bod wedi byw yn y DU am o leiaf tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd eich cwrs<br>Gallech chi fod yn gymwys hefyd os ydych:<br>• Yn ffoadur, neu'n perthyn i ffoadur<br>• Yn un o ddinasyddion yr UE, neu yn berthynas i un, sydd â statws sefydlog neu statws wedi'i setlo ymlaen<br>• Wedi cael 'caniatâd i ddod i'r DU neu aros yma', neu'n perthyn i rywun sydd wedi cael 'caniatâd i ddod i'r DU neu aros yma'<br>• Wedi cael caniatâd yn ôl disgresiwn i aros yn y DU neu'n perthyn i rywun sydd wedi cael caniatâd yn ôl disgresiwn i aros yn y DU<br>• Yn blentyn i rywun sy'n ddinesydd o'r Swistir<br>• Yn blentyn i weithiwr o Dwrci<br>• Yn berson heb wladwriaeth neu'n aelod teulu person heb wladwriaeth |
| Ffioedd Dysgu | Mae cost cyrsiau rhan-amser yn amrywio yn ôl y modiwlau rydych yn penderfynu eu cymryd. Os ydych chi'n cymryd 20 credyd neu lai mewn blwyddyn academaidd, mae'n bosibl mai dim ond ar gyfer y Cynllun Hepgor Ffioedd Dysgu y byddwch chi'n gymwys. Os ydych chi'n cymryd 30 credyd neu ragor mewn blwyddyn academaidd, yn amodol ar feini prawf cymhwyso, byddwch chi'n gallu gwneud cais ar gyfer Benthyciad Ffioedd Dysgu i dalu'r ffioedd.<br>*Dylech chi wirio pris y modiwlau unigol y byddwch chi'n eu cymryd. Rhaid i chi wneud cais am y Benthyciad Ffioedd Dysgu cywir i dalu am gost eich modiwlau. |
| 20 credyd neu lai – y Cynllun Hepgor Ffioedd Dysgu | Os ydych chi'n astudio llai nag 20 credyd mewn blwyddyn academaidd, gallech chi fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Hepgor Ffioedd CCAUC. Dilynwch y ddolen isod am fanylion y meini prawf cymhwysedd:<br><br>Cynllun Hepgor Ffioedd<br><br>Gallwch chi wneud cais yma:<br>Canllawiau a'r ffurflen gais |
| Ydych chi wedi astudio o'r blaen? | Os ydych chi wedi astudio o'r blaen, fel arfer, ni fyddwch chi'n gallu cael cyllid myfyrwyr os oes eisoes gennych chi radd Anrhydedd. Gellir ystyried unrhyw gyfnod o astudio yn y gorffennol, yn cynnwys blynyddoedd a ddechreuoch ond na wnaethoch chi eu gorffen, wrth gyfrifo'r hyn y bydd gennych chi'r hawl iddo. |

<table>
<tr><td>Sut i wneud cais</td><td>
Fe'ch anogir i wneud cais ar-lein yn y wefan ganlynol:<br>www.studentfinancewales.co.uk
Bydd ceisiadau'n agor ym mis Mai 2024. Dylech chi wneud cais cyn gynted â phosibl fel bod yr arian ar gael ar ddechrau eich cwrs.
Bydd yn rhaid i chi anfon prawf o bwy ydych chi at Gyllid Myfyrwyr Cymru. Os oes gennych chi basbort dilys o'r DU, bydd modd ichi gyflwyno'r manylion ar eich cais ar-lein.
Os nad oes gennych chi basbort o'r DU, bydd yn rhaid i chi anfon y dogfennau gwreiddiol at Gyllid Myfyrwyr Cymru. Caiff y rhain eu dychwelyd i chi.
Os na allwch chi wneud cais ar-lein, bydd angen i chi gwblhau ffurflen PTMN.
</td></tr>
<tr><td>Manylion y cwrs</td><td>
Rhaid i fanylion y cwrs ar gyfer yr holl gyrsiau Dysgu Gydol Oes fod fel a ganlyn:
<ul>
<li>Enw'r Brifysgol neu'r Coleg: Prifysgol Caerdydd</li>
<li>Enw'r Cwrs: Tystysgrif Addysg Uwch (LEARN)</li>
<li>Y cymhwyster rydych chi'n disgwyl ei ennill: Tystysgrif Addysg Uwch</li>
<li>Cyfeiriad y Brifysgol neu'r Coleg: Dysgu Gydol Oes, 50-51 Plas y Parc, Cathays, Caerdydd, CF10 3AT</li>
</ul>
Sylwer, ni dderbynnir manylion unrhyw gyrsiau eraill.
.
</td></tr>
<tr><td>Cyllid ar gyfer Costau Byw</td><td>
Mae'r cynllun y byddwch chi'n gymwys ar ei gyfer yn dibynnu ar ba mor ddwys yw eich cwrs, ac incwm eich aelwyd hefyd. Mae rhai enghreifftiau isod:
<table>
<tr><th>Pa mor ddwys yw'r cwrs</th><th>Incwm yr Aelwyd</th><th>Grant Dysgu Llywodraeth Cymru</th><th>Benthyciad Cynhaliaeth</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>75%</td><td>£25,000 neu'n llai</td><td>£4,500</td><td>£2,224</td><td>£6,724</td></tr>
<tr><td>75%</td><td>£59,200 +</td><td>£750</td><td>£5,974</td><td>£6,724</td></tr>
<tr><td>50%</td><td>£25,000 neu'n llai</td><td>£3,000</td><td>£1,483</td><td>£4,483</td></tr>
<tr><td>50%</td><td>£30,000</td><td>£2,635</td><td>£1,848</td><td>£4,483</td></tr>
<tr><td>50%</td><td>£40,000</td><td>£1,904</td><td>£2,579</td><td>£4,483</td></tr>
<tr><td>50%</td><td>£59,200 +</td><td>£500</td><td>£3,983</td><td>£4,483</td></tr>
<tr><td>25%</td><td>£25,000 neu'n llai</td><td>£1,500</td><td>£741</td><td>£2,241</td></tr>
<tr><td>25%</td><td>£59,200 +</td><td>£250</td><td>£1,991</td><td>£2,241</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>Cymorth Ariannol Ychwanegol</td><td>
At hynny, gallai arian ychwanegol fod ar gael i rai myfyrwyr, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.
<ul>
<li>Lwfans Dibynyddion</li>
<li>Lwfans Dysgu i Rieni</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul><li>Grant Gofal Plant</li><li>Grant Dibynyddion sy’n Oedolion</li></ul>
I wneud cais am Fenthyciadau Dibynyddion, bydd angen i chi lawrlwytho ffurflen PTGFD, i wneud cais ar gyfer y Grant Gofal Plant, bydd angen i chi lawrlwytho ffurflen PTCCG1. Mae'r ffurflenni hyn ar gael i'w lawrlwytho yn www.studentfinancewales.co.uk,
</td>
</tr>
<tr>
<td>Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl</td>
<td>
Mae'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn helpu i dalu unrhyw gostau ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i'ch anabledd, yn cynnwys cyflwr iechyd hirdymor neu anhawster dysgu penodol, megis dyslecsia neu ddyspracsia.<br><br>
Gall y lwfansau eich helpu â'r gost o gael person i ofalu amdanoch chi, cyfarpar arbenigol, teithio neu gostau eraill sy'n gysylltiedig ag astudio. Mae'n rhaid eich bod yn astudio cwrs â dwyster sy'n o leiaf 25% i gael y Lwfansau. Nid yw'r gefnogaeth hon yn amodol ar brawf modd.<br><br>
I wneud cais, dylech chi lawrlwytho ffurflen DSA1 o www.studentfinancewales.co.uk, ei llenwi a'i dychwelyd i Gyllid Myfyrwyr Cymru.<br><br>
Os oes angen cymorth arnoch chi i wneud cais am DSA, cysylltwch â'r Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr yn studentconnect@caerdydd.ac.uk
</td>
</tr>
<tr>
<td>Y manteision</td>
<td>A chithau’n fyfyriwr rhan-amser, fel arfer, byddwch yn dal i allu hawlio budd-daliadau sy'n dibynnu ar incwm eich aelwyd, os ydych yn dal i fodloni telerau ac amodau'r budd-daliadau hynny.  Ni fydd y Ganolfan Byd Gwaith nac adran fudd-daliadau eich awdurdod lleol yn ystyried y Benthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru neu'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl fel bod yn incwm wrth asesu unrhyw fudd-dal sy'n seiliedig ar asesiad o incwm.</td>
</tr>
<tr>
<td>Ad-daliadau</td>
<td>
Disgwylir i chi ddechrau ad-dalu eich benthyciadau i fyfyrwyr (ffioedd dysgu a benthyciadau cynnal) y mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, neu'r mis Ebrill bedair blynedd ar ôl dechrau eich cwrs, pa bynnag un sydd gyntaf.<br><br>
Byddwch ond yn dechrau gwneud ad-daliadau os yw eich incwm dros y trothwy ad-dalu. Y trothwy ad-dalu presennol ar gyfer myfyrwyr sy'n cymryd benthyciad drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru yw £27,295 y flwyddyn, £2,274 y mis neu £524 yr wythnos. Mae rhai enghreifftiau isod:<br><br>
<table>
<tr><th>Incwm bob blwyddyn cyn talu treth</th><th>Incwm bob mis cyn talu treth</th><th>Amcan o'r ad-daliad misol</th></tr>
<tr><td>£27,295</td><td>£2,274</td><td>£0</td></tr>
<tr><td>£30,000</td><td>£2,500</td><td>£20</td></tr>
<tr><td>£35,000</td><td>£2,916</td><td>£58</td></tr>
<tr><td>£40,000</td><td>£3,333</td><td>£95</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfraddau Llog</td>
<td>
Codir llog ar fenthyciadau myfyrwyr o'r diwrnod y caiff taliadau eu gwneud naill ai i chi neu i'r Brifysgol, nes bod y benthyciad wedi'i ad-dalu'n llawn neu wedi'i ganslo. Caiff unrhyw fenthyciad sy'n parhau i fod heb ei ad-dalu ar ôl 30 blynedd ei ddiddymu.<br><br>
Mae'r gyfradd llog yn seiliedig ar Fynegai Prisiau Manwerthu (RPI) y DU a bydd yn amrywio yn ôl eich amgylchiadau. Caiff y gyfradd llog ei diweddaru unwaith y flwyddyn ym mis Medi gan ddefnyddio'r ffigur RPI o fis Mawrth y flwyddyn honno.<br><br>
Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr.
</td>
</tr>
</table>

Ebostiwch learn@caerdydd.ac.uk i gael gwybodaeth gyffredinol.

Os oes gennych chi ymholiad cymhleth am eich cymhwysedd i gael cyllid myfyrwyr, cysylltwch â'r Tîm Cyngor ac Arian drwy e-bostio studentconnect@caerdydd.ac.uk

Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr
Cymorth i Fyfyrwyr, Canolfan Bywyd Myfyrwyr, Plas y Parc
Ffôn: +44 (0) 29 2251 8888
E: studentconnect@caerdydd.ac.uk